

Rhaglen o Waith Priffyrdd

Gwasanaethau Stryd a Chludiant

Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi manylion am y rhaglen arfaethedig o waith gwella priffyrdd i'w gwblhau gan Adran Gwasanaethau Stryd a Chludiant Cyngor Sir y Fflint yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

Dyfeisiwyd y rhaglenni i gefnogi nodau strategol y Cyngor Sir i wella ffyrdd a chludiant.

Caiff y rhaglenni gwella a ariennir â refeniw a chyfalaf sy'n ymwneud â thriniaethau strwythurol ac arwynebol i ffyrdd cerbydau a throedffyrdd eu blaenoriaethu o ddata arolygon cyflwr blynyddol ac archwiliadau gweledol i wella seilwaith y ffyrdd o fewn Cyngor Sir y Fflint.

Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd

Wrth sylweddoli mai dim ond drwy fabwysiadu ymagwedd strategol hir dymor at wella seilwaith y ffyrdd y gellir lleihau'r gormodedd presennol o gynnal a chadw strwythurol ar ffyrdd, mae Cyngor Sir y Fflint ar y cyd â Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu ymagwedd Cymru gyfan at Gynllunio Rheoli Asedau ar y Ffyrdd. Mae'r fethodoleg ganlynol yn esbonio'r egwyddorion sy'n deillio o flaenoriaethu rhaglenni gwaith cynnal a chadw arfaethedig:-

- » Asesiad mecanyddol a gweledol o seilwaith ffyrdd cerbydau bob blwyddyn. System gyfrifiadurol Dadansoddi Palmentydd y Deyrnas Unedig (UKPMS) yn dehongli'r wybodaeth i ddangos lefelau dirywio ar ffyrdd unigol.
- » Asesiad gweledol o seilwaith y troedffyrdd bob blwyddyn. Rhoi'r wybodaeth mewn system rheoli data i ddangos lefelau dirywio ar droedffyrdd unigol.
- » Mae'r allbwn o UKPMS a ffynonellau data eraill yn destun dadansoddiad peirianyddol i ddarparu'r strategaethau hir dymor ar gyfer gwella a fydd yn ystyried cynlluniau corfforaethol ar gyfer datblygiad economaidd a phreswyl, cynllunio cludiant rhanbarthol, anghenion cymunedol ac ystadegau damweiniau lleol.
- » Caiff rhaglenni gwella eu paratoi fesul blaenoriaeth gydag egwyddor "y rhai gwaethaf yn gyntaf" fel y rheol gyffredinol.

Caiff ymagwedd gostio oes gyfan ei defnyddio o ran penderfynu ar raglenni ar gyfer ffurfiau amrywiol ar brosesau gwella h.y.

- » Gwelliannau strwythurol ar ffurf ailadeiladu lle mae lefel dibrisio'r ased yn fawr. Mae costau sy'n gysylltiedig â'r math hwn o wella'n uchel ac mae'n arfer drwy gydol y costau oes gyfan i gyflwyno rhaglenni trin arwynebau ar gam cynnar o'r dirywio i ymestyn oes ased er mwyn lleihau lefel y gwaith ailadeiladu sy'n rhoi pwysau mawr ar yr arian sydd ar gael.
- » Gosod arwynebau newydd neu eu hatgyfnerthu.
- » Trin arwynebau i ailsefydlu ansawdd yr arwyneb neu ymestyn oes arwyneb drwy ddiogelu cwrs arwyneb sy'n dangos arwyddion cynnar dirywio drwy golli glynwr / agregau.
- » Adweadu arwyneb ffordd gerbydau sy'n strwythurol gadarn ond sy'n dangos colli ymwrthedd llithro drwy lathru'r agreg o fewn cwrs yr arwyneb.
- » Er mwyn cynyddu buddion cost yr adnoddau ariannol, mae'n rhaid ystyried y budd i gymunedau drwy gydnabod ardaloedd gweithgarwch lleol, economaidd a chymdeithasol lle bo ffyrdd sydd wedi dirywio i lefel debyg yn cael eu hystyried a lle bo adnoddau'n gyfyngedig. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd troedffordd sy'n agos at ardal siopa fawr neu ysgol yn cael blaenoriaeth dros droedffordd debyg mewn lleoliad gwledig sydd â nifer isel o gerddwyr.

Mae'r categorïau canlynol wedi'u cynnwys yn y rhestr o gynlluniau a drefnwyd i ganfod y ffactorau sy'n cefnogi eu cynnwys yn y rhaglen (Rheswm dros Waith yn y tablau isod):-

- A. Wedi'i ganfod drwy broses arolwg o gyflwr
- B. Wedi'i ganfod drwy ymchwiliadau damweiniau ei fod yn safle clystyrau damweiniau neu'n amodol ar beiriant archwilio arferion o'r ochr (SCRIM).
- C. Yn amodol ar waith adferol a chynnal a chadw mawr

Sylwer

Er y gwnaed pob ymdrech i sicrhau rhaglen ddiffiniol a fydd yn rheoli asedau'r ffyrdd yn effeithiol, gallai newid o ran cynnwys a manylion drwy gydol y flwyddyn. Gall newidiadau o'r fath ddeillio o'r angen i fynd i'r afael ag anghenion cynnal a chadw anrhagweledig sy'n codi yn ystod y flwyddyn h.y. gwaith gwasanaethau cyhoeddus brys ac addasiadau i'r gyllideb.

Rhaglen o Waith Priffyrdd - Rhaglenni Wynebu Ffyrdd - 2021/22

Disgwylir cwblhau'r cynlluniau a restrir yn y rhaglenni canlynol yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22. Er y gwneir pob ymdrech i gyflawni'r cynigion hyn, gallai amgylchiadau anrhagweledig arwain at amrywio o'r rhaglen a ddangoswyd. Gallai'r rhaglen hon newid os bydd angen gwneud addasiadau o ganlyniad i weithgarwch Cyfleustodau Cyhoeddus.

Rhif y Ffordd	Lleoliad	Ward	Rheswm dros y Gwaith
C56	GRONANT HILL I FFIN Y SIR, GRONANT	GRONANT	A
C121	KINNERTON LANE (RHAN), KINNERTON UCHAF	PENYFFORDD/ KINNERTON UCHAF	A
A5104	A5104 FFORDD CORWEN, COED TALON	TREUDDYN	A
B5127	MILL LANE, BWCLE (FFORDD GYSWLLT I LINTHORPE ROAD)	BWCLE PENTROBIN/ MYNYDD BWCLE	A
A5026	BOOT HILL (VICTORIA PARK I DOLLAR PARK) TREFFYNNON	DWYRAIN TREFFYNNON	A
B5129	CYLCHFAN QUEENSFERRY I MAKRO, QUEENSFERRY	QUEENSFERRY/MANCOT	A
U/C	ABBOTTS LANE, PENYFFORDD	PENYFFORDD	A
B5122	I'R GOGLEDD O GAERWYS	CAERWYS	A
U/C	HAFOD PARK, CEI CONNAH	GOLFTYN CEI CONNAH	A
U/C	CONWAY CLOSE, Y FFLINT	CWNSYLLT Y FFLINT	A
U/C	THE NOOK, MANCOT	MANCOT	A
U/C	HEN FFORDD YR WYDDGRUG, (RHAN) YR HOB	YR HOB	A
A548	SEALAND ROAD, CYLCHFAN,SEALAND	SEALAND	A
A550	CYLCHFAN DOBSHILL	PENYFFORDD	A
C56	FFORDD LLANASA, GRONANT - CROESFFYRDD GWESBYR TUAG AT OLD SCHOOL HOUSE	GRONANT	A
U/C	A541 I CHWAREL MAES MYNAN, AFONWEN	CAERWYS	A
C76	LÔN Y WAEN, GORSEDD	CHWITFFORDD	A
C58	PENTREF PENYFFORDD TUAG AT BENTREF GLAN YR AFON (RHAN)	TRELAWNYD GWAENYSGOR	A
B5126	FFORDD YR WYDDGRUG, CEI CONNAH	CEI CONNAH GOLFTYN/ DE CEI CONNAH	A

Rhaglen o Waith Priffyrdd - Trin Wyneb Ffordd Gerbydau 2021/22

Disgwylir cwblhau'r cynlluniau a restrir yn y rhaglenni canlynol yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22. Er y gwneir pob ymdrech i gyflawni'r cynigion hyn, gallai amgylchiadau anrhagweledig arwain at amrywio o'r rhaglen a ddangoswyd. Gallai'r rhaglen hon newid os bydd angen gwneud addasiadau o ganlyniad i weithgarwch Cyfleustodau Cyhoeddus.

Rhif y Ffordd	Lleoliad	Ward	Rheswm dros y Gwaith
A5151	CYLCHAN PEN-FFORDD LLAN I GYFFORDD SARN	CHWITFFORDD	A
B5121	WHEELER HILL, LICSWM (A541 I FFORDD Y GRAIG, LICSWM)	CAERWYS/CILCAIN	A
C79	FFORDD BRYNFFORDD, PENTRE HELYGAIN (RHAN)	BRYNFFORDD	A
U/C	FFORDD RHES Y CAE, PENTRE HELYGAIN (RHAN)	HELYGAIN	A
C75	A541 I BENTREF CILCAIN (RHAN)	CILCAIN	A
C75	FFORDD CILCAIN, GWERNAFFIELD	GWERNAFFIELD	A
C75	FFORDD GWERNAFFIELD, GER YSTÂD RHUAL	GWERNAFFIELD	A
A541	CAERGWRLLE	CAERGWRLLE	A
A541	PONTBLYDDYN	YR HÔB/ COED-LLAI	A

Rhaglen o Waith Priffyrdd - Cynlluniau Selio Slyri'r Troedffyrdd

Rhaglen yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd.

Rhaglen o Waith Priffyrdd - Cynlluniau Adeiladu

Rhaglen yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd.

Os hoffech gopi o'r cyhoeddiad hwn yn eich iaith eich hun neu ar fformat arall, fel print bras, braille neu ar dâp sain, ffoniwch yr 01352 704776